# Gweminarau – Y Busnes o Ailgylchu

## Y Sector Addysg – 20 Chwefror 2024

## Holi ac Ateb

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno atebion WRAP Cymru i'r cwestiynau a ofynnwyd gan fynychwyr yn ystod y gweminar Sector Addysg. Rydym wedi grwpio'r cwestiynau hyn yn ôl thema, weithiau mae un ateb ar gyfer nifer o gwestiynau.

Gallwch wylio'r gweminar a gweld y sleidiau yma: Ailgylchu yn y Gweithle – Gweminarau (wrapcymru.org.uk)

Cod Ymarfer: Casglu Deunyddiau Gwastraff ar Wahân ar gyfer Ailgylchu: Cod Ymarfer Cymru | LLYW.CYMRU

Mae adnoddau ar gael yma i'ch helpu i baratoi: Canllawiau y Busnes o Ailgylchu ar gyfer holl weithleoedd (wrapcymru.org.uk)

| **Cwestiwn** | **Ateb** |
|---|---|
| A oes unrhyw dystiolaeth sy'n dangos y gellir gwrthbwyso cost biniau ailgylchu ychwanegol drwy leihau'r gost i drefnu gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi/llosgi, neu leihau oriau glanhau wrth wagio'r biniau 'dan ddesg' unigol? | Mae costau cymharol y system newydd wedi'u dadansoddi. Gallwch ddarganfod mwy yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol Llywodraeth Cymru: Effaith Rheoleiddiol Opsiynau i Gynyddu Ailgylchu yn y Gweithle yng Nghymru (llyw.cymru) |
| **Biniau** | |
| Ydych chi'n gwerthu'r biniau fel y dangosir yn y sleid flaenorol? | Nid ydym yn cyflenwi nac yn argymell unrhyw finiau penodol, ond bydd chwiliad cyflym ar-lein yn eich helpu i ddod o hyd i gwmnïau sy'n gwerthu biniau ailgylchu. Rydym yn eich cynghori i chwilio o gwmpas i ddod o hyd i'r biniau sy'n addas i'ch anghenion.<br><br>Mae llawer o gyflenwyr biniau/gorsafoedd ailgylchu mewnol, gan gynnwys rhai yng Nghymru. Mae rhai yn darparu biniau pwrpasol ar gyfer cwpanau diodydd. |
| **Cyfathrebu** | |
| A ydych wedi ystyried defnyddio ysgolion a phlant i helpu i lansio'r cynllun a'i werthu i safleoedd annomestig eraill? | Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu astudiaeth achos o ysgol ym Mhowys sydd wedi cyflwyno cynllun ailgylchu yn unol â'r deddfau newydd: Ailgylchu yn y Gweithle yn Ysgol Rhiw-Bechan, Powys (youtube.com) (Saesneg); Ailgylchu yn y Gweithle yn Ysgol Rhiw-Bechan, Powys (youtube.com) (Cymraeg)<br><br>Lansiodd Cymru yn Ailgylchu yr Ymgyrch Gwastraff Bwyd Gwych ym mis Medi 2023, sy'n cynnig amrywiaeth o wybodaeth, cyngor ac adnoddau i fachu diddordeb disgyblion a rhoi ailgylchu ar waith. |

| Cwestiwn | Ateb |
|---|---|
| | Mae Eco-Sgolion yn fenter fyd-eang sy'n cael ei darparu yng Nghymru gan Cadwch Gymru'n Daclus. Cynlluniwyd y rhaglen i annog ac ysbrydoli pobl ifanc i wneud newidiadau amgylcheddol cadarnhaol i gymuned eu hysgol. |
| Byddai cymorth i ymgysylltu â dysgwyr, ac nid y staff yn unig, yn ddefnyddiol iawn, yn enwedig disgyblion ysgolion uwchradd. | Mae ein 'Canllawiau ar gyfer Addysg' yn darparu gwybodaeth ar ymgysylltu â staff a disgyblion: Canllawiau y Busnes o Ailgylchu ar gyfer holl weithleoedd (wrapcymru.org.uk) |
| A yw'r arwyddion ac adnoddau eraill ar gael yn ddwyieithog? | Ydyn, mae'r arwyddion a'r adnoddau ar gael yn ddwyieithog: Ailgylchu yn y Gweithle – Gweminarau (wrapcymru.org.uk) |
| Ni allaf weld y fersiynau Cymraeg o'r adnoddau y gellir eu lawrlwytho. Allwch chi rannu'r ddolen i'r posteri os gwelwch yn dda? | Ailgylchu yn y Gweithle - Gweminar (wrapcymru.org.uk) |
| A fyddech cystal â phostio'r ddolen i'r adnoddau posteri yng nghwestiynau ac atebion y gweminar? | Mae posteri a rennir gan Gyngor Ynys Môn wedi'u hanfon gyda'r ddogfen Holi ac Ateb hon<br>Mae'r holl adnoddau eraill yma – Ailgylchu yn y Gweithle – Adnoddau (wrapcymru.org.uk) |
| Ydyn ni'n gallu gweld y ddogfen hyrwyddo a'r biniau newydd a ddefnyddir yn Ynys Môn? | |
| A allwch chi rannu'r posteri a roesoch i ysgolion os gwelwch yn dda? | |
| A oes gennych unrhyw adnoddau hyrwyddo ar gyfer ysgolion cynradd? | |
| **Cydymffurfio** | |
| Beth yw'r broses orfodi ar gyfer ysgolion sy'n mynd i fod yn wirioneddol methu/yn cael trafferth fforddio'r biniau newydd hyn, ac ati? Mae fy ysgol wedi profi toriadau cyllid enfawr, a bydd y rheoliadau newydd hyn yn rhoi pwysau aruthrol ar ein cyllid. | Mae gennym amrywiaeth o asedau cyfathrebu y gellir eu llwytho i lawr am ddim ar wefan Busnes Ailgylchu Cymru: Canllawiau y Busnes o Ailgylchu ar gyfer holl weithleoedd (wrapcymru.org.uk)<br><br>Rydym yn eich cynghori i adolygu'r biniau sydd gennych ar y safle, ystyried y deunyddiau rydych yn eu rhoi yn y bin, a meddwl sut y gallwch wneud y defnydd gorau o'ch cynwysyddion presennol. Gallwch labelu'r rhain gyda'r posteri rhad ac am ddim gan nodi'n glir pa eitemau y dylid eu rhoi ym mhob bin.<br><br>Cyfoeth Naturiol Cymru fydd yn gorfodi'r rheoliadau hyn. Mae CNC wedi cynghori eu bod am arddel dull wedi'i dargedu yn seiliedig ar risg i'r rheoleiddio, gan ganolbwyntio ar ganlyniadau a byddant yn arddel dull gorfodaeth deg a chymesur, yn unol â'u Polisi Gorfodi a Sancsiynau, gyda phwyslais yn y dechrau ar ddod â busnesau a gweithleoedd i gydymffurfio. Gobeithio bod hynny'n galonogol.  Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am gydymffurfiaeth efallai yr |
| Byddai gen i ddiddordeb faint o groeshalogi mae Georgina Taubman o Brifysgol Caerdydd a gyflwynodd yn y weminar, wedi'i brofi? Gallaf ragweld y bydd yn rhaid i ni wirio a didoli trwy finiau. | |
| Sut deliodd yr ysgol uwchradd fawr â chroeshalogi yn eu biniau allanol? | |
| A fydd ysgolion yn cael amser i'r system hon ymsefydlu, gan y bydd angen amser ar ddisgyblion ysgolion uwchradd i ddysgu sut i roi eitemau yn y biniau cywir ac nid ydym yn gallu talu unrhyw oriau ychwanegol i staff i ddidoli'r gwastraff? | |
| Rwy'n pryderu am yr amser cyflwyno ar gyfer cydymffurfio â'r gyfraith newydd, gan mai dim | |

| Cwestiwn | Ateb |
|---|---|
| ond chwe wythnos sydd gennym i roi'r newidiadau ar waith? | hoffech gysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru ar diwygiogwastraff@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk<br><br>Nid oes cyfnod gras i ysgolion neu weithleoedd roi'r newidiadau ar waith. Daw'r gyfraith i rym o 6 Ebrill a bydd angen i chi gymryd camau nawr i gydymffurfio erbyn y dyddiad hwn. Rydym yn eich cynghori i gysylltu â'ch contractwr gwastraff nawr i drafod eich anghenion o dan y gyfraith newydd. |
| **Croesi ffiniau** | |
| Sut mae'n gweithio os yw ysgol yn Lloegr, ond bod y cludwr gwastraff yn mynd â'r ailgylchu i Gymru? A yw'r ysgol yn ddarostyngedig i'r gyfraith newydd? A yw'r cludwr yn ddarostyngedig i'r gyfraith newydd? | Os mai yn Lloegr mae'r ysgol, nid oes angen iddi gydymffurfio â chyfraith newydd Cymru. Os deuir â'r gwastraff i Gymru, bydd angen i'r cludwr gwastraff gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth Gymreig berthnasol sy'n ymwneud â chludo, storio a phrosesu'r gwastraff y mae'n ei gasglu. |
| **Gorfodaeth a dirwyon** | |
| A fydd y dirwyon a roddir yn swm cyffredinol ar draws pob math o gyfleuster a maint? | Ceir gwybodaeth am y dirwyon yn y Cod Ymarfer: Casglu Deunyddiau Gwastraff ar Wahân ar gyfer Ailgylchu: Cod Ymarfer Cymru \| LLYW.CYMRU<br><br>Os bydd diffyg cydymffurfio, gall CNC roi cyngor ac arweiniad fel ymateb cyntaf lle bo'n briodol. Fodd bynnag, ar gyfer digwyddiadau mwy difrifol neu ddiffyg cydymffurfio parhaus, mae gan CNC bwerau i fabwysiadu ymagwedd fwy cadarn pan fo angen, gan gynnwys sancsiynau sifil (cosbau ariannol sefydlog ac amrywiol) ac achosion troseddol.<br>Bydd y cosbau ariannol penodedig naill ai'n £300 neu £500 yn dibynnu ar y toriad. |
| **Gwastraff bwyd** | |
| A fyddwn yn cael dirwy am gompostio gwastraff bwyd? | Na, ni fydd eich sefydliad yn cael dirwy cyn belled â'ch bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau sy'n ymwneud â chompostio gwastraff bwyd.<br><br>Bydd angen i chi sicrhau eich bod yn ystyried Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014.<br><br>Mae'r Cod Ymarfer yn dweud: Mae'n bosibl y byddwch yn gallu compostio neu gynnal treulio anaerobig ar gyfer eich gwastraff bwyd eich hun ar eich safle ar yr amod eich bod yn bodloni gofynion Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016 ac unrhyw eithriadau perthnasol, a gofynion y Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2014 a Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009, ac unrhyw reoliadau perthnasol eraill. |

<table>
<tr><th>Cwestiwn</th><th>Ateb</th></tr>
<tr><td></td><td></td></tr>
<tr><td>Cyllido</td><td></td></tr>
<tr><td>A oes yna unrhyw gyllid ar gael i brynu biniau? Mae biniau i’w cadw y tu allan yn ddrud.</td><td rowspan="3">Yn anffodus, nid oes cyllid ar gael i gefnogi sefydliadau i gydymffurfio â’r rheoliadau newydd.</td></tr>
<tr><td>Mae hon yn fenter wych, ond mae fy ysgol mewn diffyg ac ar hyn o bryd yn dileu swyddi. A oes unrhyw gymorth ariannol i brynu biniau ailgylchu newydd gan eu bod yn eithaf drud.</td></tr>
<tr><td>A oes unrhyw help i elusennau? Mae ein hysgol annibynnol yn elusen.</td></tr>
<tr><td>Awdurdodau lleol</td><td></td></tr>
<tr><td>A oedd rheswm pam na ddefnyddiodd Cyngor Sir Ynys Môn ei dîm ailgylchu mewnol ei hun yn lle tendro contract?</td><td>Cafwyd ymateb gan Gyngor Sir Ynys Môn: Mae gennym hanes o roi gwasanaethau casglu gwastraff ar gontract allanol yn hytrach na’u rhedeg yn fewnol. Rydym wedi defnyddio contractwr allanol ers blynyddoedd lawer, felly roedd yn naturiol gwneud yr un peth eto.</td></tr>
<tr><td>Rwy'n hoffi'r ffordd y mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi cydweithio i gefnogi'r busnesau sy'n gweithredu yn y sir. Drwy gael y cyngor i drafod gyda chwmnïau gwastraff ar ran sefydliadau, mae’n siŵr o gael mwy o effaith na sefydliadau unigol sy’n ceisio gwneud hyn ar eu pen eu hunain.</td><td>Cafwyd ymateb gan Meirion Edwards, Prif Swyddog Rheoli Gwastraff, Cyngor Sir Ynys Môn: Do, fe weithiodd yr ymgysylltu â chynigwyr posibl ar gyfer y 7+ safle cyn y caffael ffurfiol yn dda iawn.</td></tr>
<tr><td>A fydd awdurdodau lleol yn darparu'r biniau ac yn rhoi cyngor ar ddiwrnodau casglu, ac ati? Hyd yn hyn, nid ydym wedi cael llawer o wybodaeth gan ein cyngor.</td><td>Os mai eich awdurdod lleol yw eich casglwr gwastraff, dylai roi gwybod i chi ond efallai na fydd wedi cwblhau ei drefniadau gan gynnwys ei ddyddiau casglu. Rydym yn eich cynghori i gysylltu â’ch awdurdod lleol i gael gwybod pryd rydych yn debygol o dderbyn gwybodaeth ganddynt am y newidiadau i’ch gwasanaeth casglu.</td></tr>
<tr><td>A oes gennych fanylion cyswllt y person neu'r tîm yng Nghyngor Abertawe sy'n arwain ar ailgylchu mewn ysgolion? Rydym yn ysgol annibynnol sy’n elusen, ac felly’n cael ei hystyried yn fusnes, ond nid ydym wedi gallu siarad â chynrychiolydd o’r cyngor.</td><td>Rydym yn eich cynghori i geisio cysylltu â thîm Cyngor Abertawe yn commercial.waste@swansea.gov.uk<br><br>Efallai y byddwch hefyd yn dewis cysylltu â chontractwyr gwastraff eraill yn eich ardal.</td></tr>
<tr><td>Yng Nghaerdydd ac ar Ynys Môn, a oes unrhyw enghreifftiau o sut mae’r newidiadau a wnaed i gydymffurfio â’r gyfraith newydd wedi lleihau gwastraff?</td><td>Cafwyd ymateb gan Gyngor Sir Ynys Môn: Nid oedd y data tunelledd o dan ein contract blaenorol yn dda, felly nid oes gennym linell sylfaen dda. Rydym wedi bod yn cynnal gwasanaeth sy’n cydymffurfio ers chwe mis ac nid ydym wedi gweld gostyngiad sylweddol yn gyffredinol eto.</td></tr>
<tr><td>Ar Ynys Môn, faint o finiau wnaethoch chi eu gosod ar faes chwarae'r ysgol?</td><td>Ni ychwanegwyd unrhyw finiau newydd i'r cae chwarae ac fe wnaethant ailddefnyddio'r hen focsys ymyl y ffordd ar gyfer defnydd mewnol.</td></tr>
</table>

| Cwestiwn | Ateb |
|---|---|
| A oes gennych fanylion cyswllt y person neu'r tîm yng Nghyngor Sir Caerfyrddin sy'n arwain ar ailgylchu mewn ysgolion? | Rydym yn eich cynghori i geisio cysylltu â thîm Cyngor Sir Caerfyrddin ar TSWasteOps@sirgar.gov.uk |
| A ddylem siarad â'n hawdurdod lleol am gyllid neu arian cyfatebol ar gyfer biniau? | Nid yw awdurdodau lleol wedi cael unrhyw arian gan Lywodraeth Cymru i ariannu biniau newydd, ond os oes gennych gontract gwasanaeth casglu gyda'ch awdurdod lleol, efallai y gall gynnig rhywfaint o gyngor. |
| Beth oedd y cynnydd cyfartalog mewn costau i ysgolion ar draws Ynys Môn? | Cafwyd ymateb gan Gyngor Sir Ynys Môn: Roeddem yn disgwyl cynnydd mawr yn y costau i ysgolion, ond nid oedd hyn yn wir.<br>Cynyddodd y gost tua £10k y flwyddyn ar gyfer ein 70+ o safleoedd i gyd, sy'n eithaf bach ar gyfartaledd. Mae'r gwasanaeth yn llawer gwell, ac mae'r allbynnau ailgylchu yn ardderchog. |
| **Hylifau** | |
| Beth ddylem ni ei wneud os oes hylif ar ôl mewn poteli plastig? | Yn ddelfrydol, dylid cadw hylifau mor isel â phosibl am resymau hylendid ond holwch eich contractwr gwastraff am derfynau derbyniol os ydych yn bryderus. |
| A fyddai'n rhaid i hylifau fel coffi, te, sudd ffrwythau, iogwrt, ac ati gael eu casglu gan gontractwr gwastraff a pheidio â mynd i lawr y sinc? | Bydd angen casglu bwyd ar wahân, ond nid diodydd.<br><br>Bydd angen cael gwared ar yr holl fwyd, gan gynnwys cawl ac iogwrt trwy wasanaeth casglu gwastraff bwyd.<br><br>Dim ond diodydd y gellir eu tywallt i lawr y sinc i'r garthffos.<br><br>I gael gwybod beth sy'n cael ei ystyried yn wastraff bwyd o dan y gyfraith newydd, gweler Atodiad 4 o'r Cod Ymarfer.<br><br>Gwiriwch gyda Dŵr Cymru neu Hafren Dyfrdwy oherwydd efallai y bydd angen i chi ddod o hyd i 'archeb elifiant masnachol'. Byddwch yn ymwybodol o'r gwaharddiad ar anfon gwastraff bwyd i garthffosydd a'i ddiffiniad o fwydydd hylifol, nad yw at y diben hwn yn cynnwys "diod". |
| A yw'r gwaharddiad ar wastraff bwyd i lawr sinciau yn cynnwys hylif fel cawl dros ben ac ati mewn ystafelloedd staff? | |
| **Sbwriel** | |
| A allech efallai ddweud ychydig eiriau ynglŷn â biniau sbwriel *Ailgylchu Wrth Fynd* ar dir eiddo annomestig? Er bod dyletswyddau glanhau strydoedd y cyngor wedi'u heithrio, nid yw "tir" lleoliadau wedi'u heithrio, ac rwy'n amau bod gan y rhan fwyaf o ysgolion finiau sbwriel newydd ar y maes chwarae, ac mae llawer o ysgolion yn agor eu meysydd chwarae a'u meysydd chwarae i'r cyhoedd ar ôl oriau ac | Mae'n ofynnol i bob ysgol gyflwyno'r deunyddiau a restrir yn y rheoliadau newydd ar wahân i'w hailgylchu. Mae hyn yn cynnwys deunyddiau a gesglir mewn mannau fel meysydd chwarae, fel arfer yn cael eu rhoi mewn biniau sbwriel.<br><br>Mater i bob ysgol yw penderfynu sut i wahanu'r deunyddiau hyn yn fwyaf effeithiol. Fodd bynnag, gall |

| Cwestiwn | Ateb |
|---|---|
| mae ganddynt finiau baw cŵn, ac ati. A fydd angen i ysgolion newid eu biniau sbwriel gyda biniau Ailgylchu wrth Fynd? | cael biniau ailgylchu ar wahân wrth ymyl biniau sbwriel fod yn ffordd dda o wneud hyn.<br><br>Ni fyddai casglu'r holl wastraff mewn bin sbwriel gweddilliol heb wneud unrhyw ymdrech i wahanu'r deunyddiau gofynnol ar gyfer ailgylchu yn cyd-fynd â'r rheoliadau newydd.<br><br>Mater i bob ysgol fydd penderfynu ar ffurfweddiad gorau biniau yn dibynnu ar faint a math y deunyddiau a gynhyrchir a'r lle sydd ar gael. |
| Mae ein biniau allanol yn cynnwys gwastraff bwyd, papur, a deunyddiau lapio gan y cyhoedd, ac yna cânt eu rhoi yn ein prif finiau ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu. Ydy hyn yn iawn neu a fydd angen eu didoli hefyd? | |
| **Deunydd** | |
| Sylwais yn ddiweddar nad oes modd rhoi papur wedi'i rwygo yn y ffrwd gwastraff papur/cerdyn. I ba ffrwd wastraff y dylai hyn fynd? | Gall papur wedi'i rwygo achosi problemau mewn safleoedd ailgylchu. Rydym yn eich cynghori i ofyn i'ch casglwr gwastraff sut yr hoffai i chi gyflwyno'r eitem hon i'w hailgylchu. |
| Pam na all papur wedi'i rwygo fynd i'r bin ar gyfer papur? | |
| A ellir rhoi metelau, plastigion a chartonau yn y biniau ailgylchu presennol ar gyfer plastigion? Ni fydd lle ar gyfer rhagor o finiau gan lawer o ysgolion. | Gellir rhoi metelau, plastigion a chartonau (y lefel lleiafsymiol o wahanu) yn yr un bin cyn belled â bod eich casglwr gwastraff am i chi gyflwyno'r deunyddiau hyn.<br><br>Gweler Atodiad 2 y Cod Ymarfer am y rhestr lawn o ddeunyddiau y dylid eu casglu ar wahân. |
| Beth am bapur budr, fel tywelion papur gwlyb mewn toiledau a hancesi papur a ddefnyddir i chwythu trwynau? | Ydyn ni'n rhoi'r rhain yn y bin ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu?<br><br>Gweler Atodiad 3 y Cod Ymarfer am y rhestr lawn o eitemau y dylid ac na ddylid eu rhoi yn y llif cardbord a phapur.<br><br>Mae'r Cod Ymarfer yn rhoi cyngor ar ddeunyddiau pacio wedi'u halogi. Gall eich casglwr gwastraff eich cynghori ar hyn hefyd.<br><br>Mae paragraffau 7.7 a 7.37 o'r Cod Ymarfer yn cynnwys rhagor o wybodaeth am leihau halogiad. |
| Beth ddylid ei roi yn y bin ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu, a sut dylid casglu hwn? | Dylai unrhyw beth sydd heb ei gynnwys yn y ffrydiau ailgylchu gael ei roi yn y bin ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu. Dylai'r ffrwd hon gael ei chasglu gan eich casglwr gwastraff. |
| A oes angen gwahanu ffilm blastig hyblyg, fel caeadau potiau iogwrt, pecynnau creision, deunydd lapio bar siocled, haenen lynu, ac ati, a'u cadw allan o finiau ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu? | Na, nid yw plastigion hyblyg yn dod o dan ofynion gwahanu'r gyfraith.<br><br>Gweler Atodiad 2 y Cod Ymarfer am y rhestr lawn o eitemau y dylid ac na ddylid eu rhoi yn y ffrwd plastigion. |

| Cwestiwn | Ateb |
|---|---|
| Beth am fagiau te? | Dylech roi bagiau te yn y cynhwysydd ailgylchu ar gyfer gwastraff bwyd. |
| Rydyn ni'n berchen ar gwpl o gaffis a lori fwyd lle rydyn ni'n defnyddio cynwysyddion untro a chyllyll a ffyrc, sy'n amlwg wedi'u halogi â'r bwyd rydyn ni'n ei weini. A ddylid rhoi'r rhain yn y bin ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu? | Rhaid rhoi unrhyw ddeunydd pacio bwyd sydd wedi'i halogi â bwyd yn eich bin ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu: gweler Atodiad 3 o'r Cod Ymarfer.<br><br>Mae'r Cod Ymarfer yn rhoi cyngor ar ddeunyddiau pacio wedi'u halogi. Gall eich casglwr gwastraff eich cynghori ar hyn hefyd.<br><br>Mae paragraffau 7.7 a 7.37 o'r Cod Ymarfer yn cynnwys rhagor o wybodaeth am leihau halogiad.<br><br>Er gwybodaeth: Cafodd cynhyrchion plastig untro eu gwahardd yng Nghymru ar 1 Hydref 2023. I gael arweiniad pellach ar hyn a pha eitemau sydd wedi'u cynnwys yn y gwaharddiad, cyfeiriwch at y canllawiau; Cynhyrchion plastig untro: canllawiau statudol \| LLYW.CYMRU |
| **Llaeth** | |
| A oes angen golchi eitemau y gellir eu hailgylchu, fel poteli llaeth, cyn eu rhoi yn y bin i'w casglu i'w hailgylchu?<br><br>Rydym yn cael gwared ar ychydig gannoedd o boteli llaeth bob dydd, ac yn pryderu sut y bydd ysgolion fel ein un ni yn rheoli hyn? | Yn ddelfrydol, ni ddylai fod unrhyw laeth dros ben mewn poteli, am resymau hylendid. Rydym yn eich cynghori i siarad â'ch casglwr gwastraff am unrhyw bryderon sydd gennych.<br><br>Os ydych yn taflu symiau mawr o laeth yn rheolaidd, dylech adolygu eich arferion i weld a allwch wneud newidiadau a fydd yn arbed arian ac yn gwastraffu llai.<br><br>Rydym wedi cynhyrchu astudiaeth achos ar Gymharu Opsiynau Pecynnu Llaeth ar gyfer Ysgolion Cynradd Sir Fynwy a allai fod yn ddefnyddiol i chi.<br><br>Mae paragraff 4.13 o'r Cod Ymarfer yn nodi nad yw diodydd yn fwyd ac felly gellir eu harllwys i lawr y draen i'r garthffos. Fodd bynnag, os ydych yn arllwys symiau sylweddol o laeth i ffwrdd, efallai y bydd angen i chi wirio gyda Dŵr Cymru neu Hafren Dyfrdwy – efallai y bydd angen i chi geisio gorchymyn 'elifiant masnachol'.<br><br>Byddwch yn ymwybodol o'r gwaharddiad gwastraff bwyd i garthffosydd a diffiniad o fwydydd hylifol, nad yw'n cynnwys diod. |
| Mae'r plant yn cael poteli bach o laeth bob dydd. Sut dylen ni gael gwared ar y llaeth sydd heb ei yfed ac sydd wedi dyddio neu ddim yn ddiogel i'w yfed mwyach? | |
| A allwn ni arllwys llaeth heb ei feddw nad yw plant yn ei yfed i lawr y sinc, neu a yw hynny wedi'i wahardd? | |
| **Proses** | |
| Mae ein gwastraff yn mynd i Veolia. Ydy hwn yn cael ei losgi? | Bydd yn rhaid i chi wirio gyda Veolia pa broses y maent yn ei dilyn; bydd yn rhaid iddynt gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd. Ni fydd yn dderbyniol |

| Cwestiwn | Ateb |
|---|---|
| | llosgi deunydd a gesglir i'w ailgylchu. Gweler y Cod Ymarfer am fanylion pellach. |
| Nid oes gan lawer o'n hysgolion ofalwyr na rheolwyr safle. Sut mae'n rhaid inni ddibynnu ar ein staff addysgu i arwain ar y newidiadau? | Mae ein 'Canllawiau ar gyfer Addysg' yn darparu gwybodaeth ar ymgysylltu â staff a disgyblion: Canllawiau y Busnes o Ailgylchu ar gyfer holl weithleoedd (wrapcymru.org.uk)v |
| A oes rhaid i ni fel ysgol drefnu'r newidiadau i'n casgliad o wastraff ailgylchu a gwastraff na ellir ei ailgylchu o'n safle, neu a fydd yr awdurdod lleol yn trefnu hyn? | Fel arfer byddech chi'n gwneud y trefniadau hyn eich hun, gan mai chi sy'n gwybod orau am y gwastraff rydych chi'n ei gynhyrchu. |

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach anfonwch e-bost at WalesRecycles@wrap.org.uk neu CymruYnAilgylchu@wrap.org.uk.